# Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013

**2013 dccc 6**

## RHAN 3

AMDDIFFYN RHAG TROI ALLAN

### 42 Amddiffyn meddianwyr yn erbyn eu troi allan ac aflonyddu arnynt, gwybodaeth anwir etc.

(1) Mae person y mae unrhyw un neu ragor o is-adrannau (2) i (6) yn gymwys iddo yn cyflawni trosedd.

(2) Mae'r is-adran hon yn gymwys i berson os yw'r person, yn ystod cyfnod contract preswyl, yn anghyfreithlon yn amddifadu meddiannydd y cartref symudol o feddiannaeth ar y safle gwarchodedig unrhyw gartref symudol y mae gan y meddiannydd hawl o dan y contract i'w osod a'i feddiannu, neu i'w feddiannu, fel preswylfa'r meddiannydd ar y safle gwarchodedig.

(3) Mae'r is-adran hon yn gymwys i berson os yw'r person, ar ôl i gontract preswyl ddod i ben neu gael ei derfynu, yn gorfodi unrhyw hawl i gau meddiannydd y cartref symudol allan o'r safle gwarchodedig neu o unrhyw gartref symudol o'r fath, neu i symud ymaith neu gadw unrhyw gartref symudol o'r fath allan o'r safle gwarchodedig heblaw drwy achos yn y llys.

(4) Mae'r is-adran hon yn gymwys i berson os yw'r person (boed yn ystod cyfnod contract preswyl ynteu ar ôl i gontract preswyl ddod i ben neu gael ei derfynu) yn cyflawni gweithredoedd sy'n debyg o ymyrryd â llonyddwch neu gysur y meddiannydd neu bersonau sy'n preswylio gyda'r meddiannydd, neu'n tynnu'n ôl neu'n cadw'n ôl wasanaethau neu gyfleusterau sy'n rhesymol angenrheidiol er mwyn meddiannu'r cartref symudol fel preswylfa ar y safle, gan fwriadu peri bod meddiannydd y cartref symudol—

(a) yn rhoi'r gorau i feddiannu'r cartref symudol neu ei symud ymaith o'r safle, neu

(b) yn ymatal rhag arfer unrhyw hawl neu rhag mynd ar drywydd unrhyw rwymedi mewn perthynas â hynny.

***Statws** This is the original version (as it was originally enacted).*

(5) Mae'r is-adran hon yn gymwys i berson os yw'r person yn berchennog y safle gwarchodedig, neu'n asiant iddo, a bod y person hwnnw (boed yn ystod cyfnod contract preswyl ynteu ar ôl i gontract preswyl ddod i ben neu gael ei derfynu)—

(a) yn cyflawni gweithredoedd sy'n debyg o ymyrryd â llonyddwch neu gysur meddiannydd y cartref symudol neu bersonau sy'n preswylio gyda'r meddiannydd, neu

(b) yn tynnu'n ôl neu'n cadw'n ôl wasanaethau neu gyfleusterau sy'n rhesymol angenrheidiol er mwyn meddiannu'r cartref symudol fel preswylfa ar y safle,

a bod y person (yn y naill achos neu'r llall) yn gwybod, neu fod ganddo achos rhesymol dros gredu, bod yr ymddygiad yn debyg o beri i'r meddiannydd wneud unrhyw un neu ragor o'r pethau a grybwyllir yn is-adran (4)(a) neu (b).

(6) Mae'r is-adran hon yn gymwys i berson os yw'r person yn berchennog y safle gwarchodedig, neu'n asiant iddo a bod y person hwnnw, yn ystod cyfnod contract preswyl—

(a) yn fwriadol neu'n ddi-hid yn rhoi gwybodaeth neu'n cyflwyno sylwadau sy'n anwir neu'n gamarweiniol mewn ystyr berthnasol i unrhyw berson, a

(b) yn gwybod, neu fod ganddo achos rhesymol dros gredu, bod gwneud hynny yn debyg o beri—

(i) i'r meddiannydd wneud unrhyw un neu ragor o'r pethau a grybwyllir yn is-adran (4)(a) neu (b), neu

(ii) i berson sy'n ystyried a ddylai brynu neu feddiannu'r cartref symudol y mae'r contract preswyl yn ymwneud ag ef benderfynu peidio â gwneud.

(7) Yn is-adrannau (5) a (6) mae cyfeiriadau at berchennog safle gwarchodedig yn cynnwys cyfeiriadau at berson sydd ag ystâd neu fuddiant yn y safle sy'n drech nag ystâd neu fuddiant y perchennog.

(8) Yn yr adran hon mae cyfeiriadau at feddiannydd y cartref symudol yn cynnwys cyfeiriadau at y person a oedd yn feddiannydd y cartref symudol o dan gontract preswyl sydd wedi dod i ben neu sydd wedi ei derfynu ac, yn achos marwolaeth y meddiannydd (boed yn ystod cyfnod contract preswyl ynteu ar ôl i gontract preswyl ddod i ben neu gael ei derfynu), at unrhyw berson a oedd y pryd hwnnw yn preswylio gyda'r meddiannydd.

(9) Nid oes dim yn adran hon yn gymwys i arfer hawl gan berchennog cartref symudol i gymryd meddiant ar y cartref symudol, heblaw hawl a roddir wrth i gontract preswyl ddod i ben neu gael ei derfynu neu yn sgil hynny, nac i ddim byd a wneir yn unol â gorchymyn gan unrhyw lys.